WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2008-09

Mehefin 2009

Awduron: Rob Powell a John Weston Cyf: 384A2009

# Asesiad Risg ar y Cyd

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth o risgiau a bellach mae angen iddo fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ac a nodir yn yr asesiad risg ar y cyd eleni.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran lleihau lefelau'r risg weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid ac mae'n gweithio i wella ymateb gweithredol y Gwasanaeth ymhellach | 5 |
| Mae'r Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran lleihau'r lefel o risg a nodwyd yn yr asesiad risg ar y cyd diwethaf | 6 |
| Erys y risg o farwolaethau ac anafiadau, safonau gwasanaeth a chyd-ymateb yn risg uchel o hyd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wynebu risgiau pellach o ran pwysau ariannol, TG, Craffu, Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, gwella'r broses gaffael a'r system ar ddyletswydd yn ôl galw | 11 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (Tân) ar ran Llywodraeth y Cynulliad drwy arolygu'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r arolygiad hwn yn cynnwys asesiad gweithredol a wneir gan Dîm Asesu Cymheiriaid a oruchwylir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac asesiad anweithredol a wneir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a'i lywio gan waith archwilio a gyflawnwyd gan KPMG ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Canlyniad y broses hon yw Asesiad Risg ar y Cyd y cytunwyd arno gan Swyddfa Archwilio Cymru, y Tîm Asesu Cymheiriaid a swyddog y Gwasanaeth Tân ac Achub Gwasanaeth. Caiff yr Asesiad Risg ar y Cyd ei ddiweddaru bob blwyddyn a bydd yn llywio'r gwaith archwilio ac arolygu rheoliadol yn y dyfodol.
2. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'r Asesiad Risg ar y Cyd diwygiedig hwn sydd bellach yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Mae'n diweddaru'r Asesiad Risg ar y Cyd a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn 2008. Edrychwyd ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynhaliwyd asesiad gweithredu thematig hefyd a oedd yn ystyried cynnydd y Gwasanaeth Tân ac Achub o ran mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn yr adolygiadau asesiad cymheiriaid blaenorol.
3. Dylai'r risgiau a'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan yr Asesiad Risg ar y Cyd lywio Cynllun Gwella a Chynllun Gweithredu Lleihau Risg blynyddol yr Awdurdod. Bydd hefyd yn helpu Swyddfa Archwilio Cymru i benderfynu ar ei waith archwilio ac arolygu drwy gytuno ar y Cynllun Rheoliadol y byddwn yn ei drafod gyda swyddogion a'i gyflwyno i'r Awdurdod.
4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu canfyddiadau lefel uchel ac nid yw'n gynhwysfawr o ran rhestru pob risg a wynebir gan yr Awdurdod.
Nodir y canfyddiadau manwl yn y Templed Asesu Risg a fydd ar gael i aelodau ar ffurf electronig. Efallai y bydd aelodau'n dymuno edrych ar y Templed Asesu Risg i gael rhagor o wybodaeth a manylion. Mae'r Templed Asesu Risg yn categoreiddio'r risg gynhenid a lefel y risg weddilliol ym mhob maes o fframwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, gan ddefnyddio'r categorïau risg uchel/canolig ac isel a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt ag uwch swyddogion.
5. Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu rhai o'r materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod mewn ffordd a fydd yn llywio Aelodau a swyddogion wrth iddynt gyflwyno a diweddaru eu Cynlluniau Lleihau Risg a Gwelliant i wella diogelwch tân yn y Canolbarth a'r Gorllewin.

6. Negeseuon allweddol yr adroddiad hwn yw:

- Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau lefelau'r risg weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid ac mae'n gweithio i wella ymateb gweithredol y Gwasanaeth ymhellach.
- Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau'r lefel o risg a nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd diwethaf.
- Erys y risg o farwolaethau ac anafiadau, safonau gwasanaeth a chyd-ymateb yn risg uchel o hyd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wynebu risgiau pellach o ran pwysau ariannol, TG, Craffu, Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, gwella'r broses gaffael a'r system ar ddyletswydd yn ôl galw.

## Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran lleihau lefelau'r risg gweithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid ac mae'n gweithio i wella ymateb gweithredol y Gwasanaeth ymhellach

7. Yn 2008 adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth gyda 19 o'r risgiau a amlygwyd yn adroddiadau blaenorol y Tîm Asesu Cymheiriaid. Adroddwyd ar gasgliadau'r adolygiad i'r Aelodau yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 2 Chwefror 2009. Daeth y Tîm Asesu Cymheiriaid i'r casgliad:'Barn gyffredinol y Tîm Asesu Cymheiriaid oedd bod cyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn broffesiynol ac yn frwdfrydig. Roedd y personél wedi croesawu'r newidiadau diweddar ac wedi cefnogi ymagwedd y Gwasanaeth tuag at Ddiogelwch Tân Cymunedol.'

8. Nododd Tîm PAT y canlynol:

- Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân – 'Gwnaed cynnydd sylweddol o ran adnoddau a gweithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân drwy reolaeth ac arweinyddiaeth wleidyddol gref.' Cefnogir yr arweinyddiaeth hon ymhellach gan gais y Prif Swyddog Tân am adolygiad o gynnydd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Disgwylir adroddiad i'r Aelodau am ganlyniad yr adolygiad hwn yn yr hydref.
- Gwasanaeth Cyflenwi'r Gwasanaeth Tân – 'Gwnaed cynnydd o ran defnydd y gwasanaeth cyflenwi a'r adnoddau a roddwyd i'r maes hwn. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y potensial am well defnydd o'r dull hwn yn y dyfodol unwaith i'r data gael ei ddilysu.'
- Ystafell Reoli – 'Mae'r Gwasanaeth wedi symud yn llwyddiannus i Ystafell Reoli ar y Cyd. Maent wedi mabwysiadu systemau symud a chyfathrebu newydd heb amharu ar y gwasanaeth. Erbyn hyn gall y gwasanaeth ddangos gwell cadernid mewn perthynas â swyddogaethau craidd yr Ystafell Reoli.'

- Ymateb Mewn Argyfwng – ‘Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno Cofnodion Ymarferion Personol er mwyn cefnogi'r hyfforddiant risg cyfredol ac mae wedi gwneud trefniadau diweddar i gefnogi hyfforddiant sy'n seiliedig yn yr orsaf gan y ganolfan. Mae'r broses hon yn rhoi sylfaen gadarn i ddatblygiad cyson o'r gweithlu a hyfforddiant diogelwch cyfredol a bydd yn elwa o adolygiadau achlysurol a monitro manwl.’
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth – ‘Gwnaed cynnydd sylweddol i ddatblygu rôl Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.’
- Polisïau Gweithredol – ‘Pennwyd y fethodoleg ar gyfer adolygu polisi gweithredol ac mae tystiolaeth o gynnydd o ran gweithredu.
Gwnaed cynnydd sylweddol o ran monitro a sicrhau cydymffurfiaeth drwy ymweliadau â gorsafoedd a monitro gweithredol.’
- Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd – ‘Gwnaed buddsoddiad sylweddol gan y Gwasanaeth i liniaru effeithiau gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd yn ei faes gwasanaeth. Mae mabwysiadu strategaeth gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd y Gwasanaeth yn ffurfiol wedi egluro'i gyfrifoldebau yn y bartneriaeth gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd.’

9. Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid feysydd i'w gwella hefyd a nodwyd gan y Gwasanaeth fel rhan o'r broses adolygu. Cawsant eu casglu a .....

## Mae'r Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwneud cynnydd o ran lleihau'r lefel o risg a nodwyd yn yr asesiad risg ar y cyd diwethaf

10. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran lleihau rhai o'r risgiau lefel uchel a nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd diwethaf. Yn arbennig, mae 10 o'r meysydd risg lefel uchel bellach wedi gostwng i risg ganolig. Maent yn ymwneud â'r meysydd canlynol:
    - cyfrannu at agenda cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi pobl Llywodraeth y Cynulliad;
    - lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth;
    - archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref;
    - lleihau effaith fasnachol, economaidd a chymdeithasol tanau;
    - diogelu diffoddwyr tân sy'n cyflawni eu dyletswyddau;
    - cynllunio Wrth Gefn;
    - achub o Lifogydd a Dŵr;
    - ystafell Reoli (cadernid a rheolaeth driphlyg);
    - rheoli Perfformiad.
11. Hefyd, gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd risg ganolig yn cynnwys rôl a chyfrifoldebau Aelodau, rheoli perfformiad, cynaliadwyedd a chydraddoldeb.

12. Mae'r Asesiad Risg ar y Cyd cyfredol yn amlygu nifer o feysydd lle y mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd, yn cynnwys:

- Datblygu parhaus argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu cynnydd y Grŵp Gorchwyl o dan ei phrosiect Ffyrdd Callach o Weithio a fydd yn ystyried deilliannau gwaith y grŵp.
- Sefydlwyd ystafell Reoli ar y Cyd newydd ac mae'r gwasanaeth bellach yn rhannu cyfleusterau â Heddlu Gogledd Cymru, sy'n gwella o ran ymateb a chadernid.
- Cymeradwyo polisi amgylchiadau risg ynghyd â'r gwaith o ddatblygu cynllun gorsaf allweddol i gynyddu parhad y gwasanaeth o dan amodau eithriadol.
- Lleihau effaith tanau mewn eiddo nad ydynt yn eiddo domestig drwy dargedu diogelwch tân.
- Parhau â rhaglen heriol o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, ynghyd â thargedu aelwydydd sy'n agored i niwed ac mewn perygl.

13. Daeth adolygiad y Swyddfa Archwilio Cymru o Reoli Fflyd o hyd i nifer o enghreifftiau o arfer da. Yn benodol gwelodd yr adroddiad fod gan y gwasanaeth ‘ddull o reoli fflyd sy'n gwneud defnydd da o adnoddau i gefnogi gwelliannau o ran darparu gwasanaeth.’

14. Y blaenoriaethau i'r Awdurdod fydd gweithredu'r mesurau lleihau risg a amlinellir ar gyfer y risgiau hynny sy'n aros yn uchel a chanolig. Mae Cynllun Lleihau Risg a Chynllun Gweithredu (2009-10) drafft yr Awdurdod yn nodi cyfres o gamau gweithredu a fwriedir i ddarparu gwelliannau yn y meysydd hyn.

15. Mae arddangosyn 1 isod yn amlygu enghreifftiau o risgiau sydd wedi gostwng o uchel i risg weddilliol ganolig.

**Arddangosyn 1: Enghreifftiau o Risgiau sydd wedi gostwng o Risg Weddilliol Uchel**

| Agwedd | Disgrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau Lliniaru | Lefelau o risg gynhenid/ weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| **Rôl ehangach Safon Adrodd Ariannol**<br>**2.1 a 2.2**<br>Cyfrannu at agenda cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi pobl Llywodraeth y Cynulliad. | Yn dilyn ymlaen o lefel uchel o farwolaethau ac anafiadau damweiniol oherwydd tân yn y gogledd, crëwyd 'grŵp gorchwyl' sy'n cynnwys y Prif Swyddog Tân, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint. Allbwn y grŵp gorchwyl oedd 44 o argymhellion sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd. | Risg bosibl mewn perthynas â gallu i gyflawni amcanion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân. | Cytunwyd ar brotocolau rhannu data gyda'r holl Awdurdodau Unedol yn y Gogledd, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a thair Ymddiriedolaeth y GIG.<br>Mae gan y Prif Swyddog Tân y cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r argymhellion ac mae'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt.<br>Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dechrau prosiect astudiaeth achos byr i ystyried effeithiolrwydd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân fel rhan o'r prosiect Ffyrdd Callach o Weithio a fydd yn amlygu pethau cadarnhaol sydd wedi deillio o waith y Grŵp Gorchwyl. | U/C |
| **2.6**<br>Cyfrannu at agenda amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad drwy leihau 'ôl troed carbon' yr Awdurdodau Tân ac Achub. | Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at fodloni ei rwymedigaethau i asesu a lleihau ei ôl troed carbon lle y bo'n bosibl. Er enghraifft:<br>• cynlluniau Teithio Gwyrdd;<br>• cynllun Beicio i'r Gwaith;<br>• monitro'r defnydd o ynni ar draws ystod o ddefnyddiau;<br>• cynlluniau ailgylchu;<br>• defnydd o ddulliau Olrhain Fflyd. | Methu â sicrhau lleihad realistig o ôl troed carbon. | Adolygwyd gwaith cynnal a chadw'r fflyd o gerbydau fel rhan o adolygiad rheoli fflyd Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd hyn rai meysydd o arfer da, er enghraifft, y defnydd o gwmni allanoli i fonitro'r defnydd o olew.<br>Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi cyflwyno rhaglen 'Y Ddraig Werdd' ac mae wedi sefydlu cyfleusterau ailgylchu yn ei brif orsafoedd. | U/C |

| Agwedd | Disgrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau Lliniaru | Lefelau o risg gynhenid/ weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| **Diogelu Diffoddwyr Tân sy'n cyflawni eu dyletswyddau**<br>**3.24**<br>A yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn defnyddio canllawiau 'Trais yn y Gwaith' (a baratowyd gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân). | Dogfen Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân a ddefnyddiwyd ar gyfer cofnodi ymosodiadau'n defnyddio'r ffurflen Tanau o Ddiddordeb Arbennig (FOSI) ac a gyflwynwyd i'r adran Cymunedau a Llywodraeth Leol/Grŵp Arweiniad Corfforaethol. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau'r Polisi Aflonyddwch Sifil a'r Polisi Trais Domestig drafft.<br>Ni lwyddodd y gwasanaeth i gysylltu unrhyw achosion unigol ag unigolion arbennig ac felly ni aethpwyd ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol hyd yma. Rhoddwyd gwybod i Heddlu Gogledd Cymru am bob achos<br>Cofnodwyd saith o ymosodiadau yn erbyn criwiau yn y gogledd ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2008-09 a chofnodwyd yr ymosodiadau hyn fel rhai corfforol a rhai ar lafar. | Anafiadau posibl i ddiffoddwyr tân. | Astudir adroddiadau digwyddiadau gan adran cymorth gweithredol y gwasanaeth a defnyddir unrhyw arfer da i wella diogelwch Diffoddwyr Tân.<br>. | U/C |

| Agwedd | Disgrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau Lliniaru | Lefelau o risg gynhenid/ weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| **Ystafell Reoli (Cadernid a Rheolaeth Driphlyg)**<br>**5.17**<br>Sut y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi cymryd rhan mewn partneriaethau hirdymor a threfniadau gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau argyfwng eraill er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithredol a gwerth gorau. (Gallai'r trefniadau roi cadernid mewn perthynas â gorchymyn, ystafell reoli, symud a chynllun 'wrth gefn' drwy integreiddio a chyd-gymorth). | Datblygwyd canolfan gyfathrebu ar y cyd newydd gyda Heddlu Gogledd Cymru a fydd yn gwella cadernid a'r ymateb i ddigwyddiadau yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub a darparu ar gyfer cadernid ehangach Cymru Gyfan. | Potensial i fethu a chynnal swyddogaethau'r ystafell reoli. | Aeth y ganolfan gyfathrebu ar y cyd newydd yn fyw ym mis Hydref 2008. Mae'n drefniant ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru. Yn y tymor hwy, y bwriad yw y bydd yn cynnwys y gwasanaeth ambiwlans yn y ganolfan gyfathrebu.<br>Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn cymryd rhan gweithredol ym mhrosiect cadernid Cymru-gyfan i gysylltu'r tri rheolaethau Tân ac Achub. | U/C |
| **Systemau a Strwythurau**<br>**7.1**<br>A oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub systemau a strwythurau ar waith i fonitro perfformiad a sicrhau gwerth am arian ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir ganddo? | Nododd yr Asesiad Risg ar y Cyd yn 2008 fod gan yr Awdurdod Tân ac Achub enw da o weithredu o fewn ei gyllideb. Mae'r Cynllun Gwella a'r Cynllun Lleihau Risg yn rhoi ymagwedd strategol gyffredinol y gwasanaeth. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Fel y nodir yn yr Asesiad Risg ar y Cyd, mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'i bwysau ariannol a'r angen i gynnal sefyllfa ariannol effeithiol i sicrhau y darperir y Gwasanaeth. | U/C |

*Ffynhonnell: Templed Asesu Risg Swyddfa Archwilio Cymru*

## Erys y risg o farwolaethau ac anafiadau, safonau gwasanaeth a chyd-ymateb yn risg uchel o hyd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wynebu risgiau pellach o ran pwysau ariannol, TG, Craffu, Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, gwella'r broses gaffael a'r system ar ddyletswydd yn ôl galw

16. Mae'r lefel o risg yn uchel mewn tri maes o hyd sy'n adlewyrchu ymdrechion parhaus y Gwasanaeth i flaenoriaethu'r meysydd hyn, sef:
    - lleihau nifer y bywydau a gollir a'r anafiadau mewn tanau a digwyddiadau argyfwng eraill;
    - mae'r safonau gwasanaeth yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth y Cynulliad, ond mae'r gwasanaeth yn cydnabod y pwysau allweddol o ddarparu gweithgareddau ataliol i gartrefi sydd y tu allan i Safonau'r Cynulliad ar hyn o bryd sy'n cynnwys gallu'r gwasanaeth i ymateb i achosion o fewn cyfnodau amser penodedig;
    - y polisi presennol o ran cyd-ymateb.
17. Yn ogystal â'r achosion o risg lefel uchel a nodir uchod, amlygodd yr Asesiad Risg ar y Cyd nifer o feysydd lle y mae lefelau canolig o risg o hyd, yn cynnwys:
    - Er bod gan yr Awdurdod enw da o ran gweithredu o fewn ei gyllideb, mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol yn y dyfodol a allai effeithio ar ei gyllideb. Er bod rheoli ariannol a datganiadau ariannol yn aros yn risgiau isel, mae'r sefyllfa ariannol yn risg ganolig o hyd.
    - Mynd i'r afael â risgiau lefel uchel a lefel ganolig a nodwyd yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o systemau TG.
    - Gweithredu argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Graffu, yn arbennig creu'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu newydd.
    - Er bod y gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid, mae heriau o hyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnal ei fomentwm wrth gyflawni Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref.
    - Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran caffael, erys yn risg ganolig o hyd sy'n adlewyrchu'r gwaith pellach angenrheidiol.
    - Mae'r System ar Ddyletswydd Yn ôl Galw(RDS) yn rhoi'r rhan fwyaf o'i gyflogeion i'r gwasanaeth ac, er ei bod yn risg ganolig o hyd, bydd yr adolygiad presennol o'r System ar Ddyletswydd Yn ôl Galw gan Lywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar y gwasanaeth, ynghyd â'r angen parhaus i gynnal lefelau recriwtio a chadw staff gyda'r System ar Ddyletswydd Yn ôl Galw.
18. Mae arddangosyn 2 isod yn amlygu enghreifftiau o risgiau sydd wedi aros yn risgiau gweddilliol canolig.

**Arddangosyn 2: Risgiau sydd wedi aros yn risgiau gweddilliol canolig**

| Agwedd | Disgrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau Lliniaru | Lefelau o risg gynhenid/ weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| **Sefyllfa Ariannol**<br>**1.5** | Mae gan yr Awdurdod enw da am weithredu o fewn ei gyllideb ac mae ei sefyllfa ariannol gyffredinol yn gadarn gyda gwariant gwirioneddol yn 2007-08 yn is na'r gyllideb o £2,000 yn unig. Mae adroddiad monitro diweddaraf y gyllideb yn amcangyfrif y bydd yr alldro ar gyfer 2009-09 yn danwariant o £115,000. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn. | Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'i bwysau ariannol a'i angen i gynnal sefyllfa ariannol effeithiol i sicrhau y darperir yr Awdurdod. | C/C |
| **Safonau Gwasanaeth**<br>**3.18**<br>O ran yr eiddo y tu allan i'r Safon, dylai'r Awdurdod Tân ac Achub weithredu gweithgaredd a mentrau ataliol. (FRS/RRC/S/004). | Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi cynnal ei darged uchelgeisiol o gyflawni 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref y flwyddyn. Mae ffigyrau alldro amodol cyfredol yn adrodd bod dros 31,000 o Wiriadau Diogelwch Tan yn y Cartref wedi cael ei gyflenwi yn 2008-.09 . | Potensial i fethu â chyflawni'r Safonau Cenedlaethol y cytunwyd arnynt. | Rhoddwyd ymdrech sylweddol ar Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref sy'n targedu cartrefi'n arbennig sy'n agored i niwed ac mewn risg mewn ardaloedd trefol a gwledig helaeth y Gwasanaeth. | C/C |
| **Caffael**<br>**4.5**<br>A yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi cyflawni Lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy (a gynhyrchwyd gan Gwerth Cymru)? Os na, a oes ganddo gynlluniau i wneud hynny erbyn 2009. | Nid yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi cyflawni'r lefel hon. | Methu â chydymffurfio â'r fframwaith. | Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Tân ac Achub mewn trafodaeth i weld a all Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ymgymryd â hyn ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub. | C/C |

| Agwedd | Disgrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau Lliniaru | Lefelau o risg gynhenid/ weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| **Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd**<br>**4.8**<br>Sut y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cyfrannu at Gymru gynaliadwy drwy ddangos cydymffurfiaeth statudol â materion amgylcheddol a chyfrifoldeb corfforaethol amdanynt? | Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud cynnydd â'r Ddraig Werdd a mentrau eraill. | Posibilrwydd o fethu â dangos cydymffurfiaeth statudol a dangos cyfrifoldeb corfforaethol effeithiol. | Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ceisio cyflawni lefel 1 o raglen y Ddraig Werdd. Yn ogystal, nododd Adolygiad Rheoli Fflyd Swyddfa Archwilio Cymru rai meysydd o arfer amgylcheddol da. | C/C |
| **Cyd-gymorth**<br>**5.7**<br>A yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi datblygu trefniadau i gefnogi defnydd posibl o staff gweithredol ar lefelau Rheoli Aur ac Arian ledled Cymru ac ar draws ffiniau? | Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ymgymryd ag ystod o weithdrefnau a chymwyseddau gweithredol. | Methiant posibl i ddarparu'r gwasanaeth. | Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ymgymryd ag archwiliadau o'r rolau a'r cymwyseddau allweddol ar bob lefel, yn cynnwys lefelau arian ac aur. **Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid (2008) fod:** 'proses ddadfriffio i gasglu a chyfleu canlyniadau wedi cael ei rhoi ar waith a bydd y gwaith o ddatblygu'r broses hon yn galluogi'r sefydliad i ddysgu o'i brofiadau ei hun'. Nododd y Tîm bum maes i'w datblygu ymhellach hefyd (Risg 16). | C/C |

| Agwedd | Disgrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau Lliniaru | Lefelau o risg gynhenid/ weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| **Systemau Ar Ddyletswydd Yn ôl Galw (RDS)**<br>**6.16**<br>A yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn gweithio tuag at sefydlu system gynaliadwy sy'n cydnabod pwysigrwydd ymrwymiadau'r unigolyn ac yn ei wobrwyo'n ddigonol ar ei gyfer? | Mae'r Cynllun Gwella yn amlygu pwysigrwydd staff RDS. | Methiant posibl i gynnal RDS cynaliadwy. | Nid oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub unrhyw gynlluniau cyfredol i newid y system tâl RDS gan ei fod o'r farn ei bod heb ei brofi o hyd y byddai'n cynyddu cyfraddau cadw RDS. | C/C |
| **6.17**<br>A oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddulliau arloesol i wella'r broses o recriwtio staff RDS? | Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i adolygu gweithrediad RDS yng Nghymru erbyn 2011 ac i wneud argymhellion i Weinidogion. | Methiant posibl i recriwtio RDS. | Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn datblygu rhaglen busnes i fusnes â chyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill i gynorthwyo gyda'r broses o recriwtio. Cyflawnwyd rhywfaint o lwyddiant cyson yn Ne Gwynedd fel rhan o'r treial. | C/C |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk